# Proffil Sgiliau Digidol
## Cyflogwyr




# Sw Caer

### Cwmni
Sw Caer

### Maint y Cwmni
1000 o bobl

### Sefydlwyd
1931

### Lle mae'r cwmni wedi'i leoli
Yng Nghaer, ond mae cysylltiadau ymchwil ac academaidd ledled y byd

### Enghreifftiau o rolau nodweddiadol i raddedigion
Cyllid a Chyfrifeg
Marchnata
Datblygu Cynnwys Creadigol
Ceidwad Addysg
Lletygarwch
Gwyddonwyr a Thechnegwyr Labordai
Gweithrediadau Gwesteion

## Sgiliau Digidol Hanfodol sy'n Werthfawr yn ein barn ni

**Llythrennedd Digidol**: Dadansoddi ystadegol yn amrywio o reoli Excel yr holl ffordd i fyny at godio R, defnyddio iaith codio, gweithio gyda setiau data mawr, modelu rhagfynegol, dealltwriaeth am ddylanwad meddalwedd a chaledwedd, a threfnu data

**Datrys Problemau Digidol**: Datrys problemau sy'n gysylltiedig ag R

**Dysgu a Chreadigrwydd Digidol**: Offer hyfforddi digidol megis gwefannau pleidleisio, wedi'u gwreiddio o fewn cyflwyniadau PowerPoint ac MS Teams

### A oes gan y graddedigion yr ydych yn eu cyflogi wendidau cyffredin o ran sgiliau digidol?

“Yr ymwybyddiaeth foesegol o ddefnyddio technoleg. Rydym yn atyniad i ymwelwyr, felly mae'n rhaid i ni fod yn ofalus o'n prosesau ac rydym yn cael adolygiadau moesegol. Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o GDPR, diogelu data ac mae'n rhaid i ni feddwl am wedd y camerâu ac effaith technoleg ar les anifeiliaid, o ran y goleuadau, y synau a'r gwres. Beth os yw'r camera hwn yn newid tymheredd y dŵr? Hefyd, yr elfennau ymarferol, felly does gennym ni ddim plygiau ym mhobman na Wi-Fi ac rydyn ni'n gweithio'n fyd-eang felly mae honno'n elfen arall sydd angen ei hystyried."

### Beth fyddai eich cyngor gorau i raddedigion?

"Astudiwch gynifer o gyrsiau ychwanegol ag y gallwch oherwydd nid ydym yn disgwyl i chi wybod popeth ond os yw'r holl ymgeiswyr wedi astudio graddau tebyg, ond nad ydynt wedi astudio unrhyw beth yn ychwanegol, does dim byd yn eich gosod ar wahân."

### Am beth ydych chi'n chwilio mewn gweithiwr?

"Un peth newydd rydyn ni'n edrych arno yw DA felly mae llawer o'n gwyddonwyr yn gweithio ar dechnoleg olrhain camerâu ar raddfa fawr ac mae arnom angen i'n graddedigion fod yn barod ar gyfer pethau nad ydynt yn bodoli eto. Rhaid i chi fod yn hyddysg yn y maes ac yn gwybod am y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg. Rydym hefyd yn chwilio am wytnwch i ymdopi â newidiadau, datrys problemau a'r gallu i addasu'n gyflym."

### Ydych chi'n meddwl bod graddedigion yn anwybyddu sgiliau digidol yn y math hwn o waith?

"Yn bendant, mae cyfran fawr o'r amser yn ein swyddi yn cael ei dreulio o flaen cyfrifiadur. Nid ydym yn gweld modiwlau prifysgol gyda digon o bwyslais ar y dechnoleg yr ydym yn ei defnyddio, boed hynny'n ddelweddu thermol neu ystadegyn R yn hytrach na SPSS nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn diwydiant mewn gwirionedd, felly mae bod yn flaengar pan fo'r modiwlau ond yn newid bob 4-5 mlynedd yn anodd iawn."

Gwefan Sw Caer